

#	English	Cymraeg
1	I'd tell you what I wanted if you asked	Bydden i'n dweud wrthot ti beth o'n i'n moyn set ti'n gofyn (byddwn)
2	I'd rather speak Welsh	Byddai'n well da fi siarad Cymraeg
3	I'd try to help you if you'd slow down	Trien i helpu ti taset ti'n arafu
4	I'd like to find out what he said before she tells you	Hoffen i ffeindio mas be dwedodd e cyn iddi ddweud wrthot ti.
5	I'd like to know how to say it in Welsh	Hoffen i wybod sut i ddweud e yn Gymraeg
6	I'd like to read this book about your sister tonight	Hoffen i ddarllen y llyfr 'ma am dy chwaer di heno
7	I would like to say that I have just started speaking Welsh, but I enjoy practising with you	Hoffen i ddweud bo' fi newydd ddechrau siarad Cymraeg, ond dw i'n joio ymarfer gyda ti
8	I wouldn't do that again if I were you	Fyddden i ddim yn gneud hynny eto sen i'n ti (fyddwn)
9	I'd rather not tell you, to be honest	Well da fi beidio dweud wrthot ti, i fod yn onest.
10	I'd rather not answer until I finish this	Well da fi beidio ateb nes i fi gwplu hwn.
11	You'd tell me if you could do it, wouldn't you?	Byddet ti'n dweud wrtha i set ti'n gallu gneud e, yn fyddet?
12	You'd help our daughter if you could, wouldn't you?	Byddet ti'n helpu ein merch ni set ti'n gallu, yn fyddet?
13	You'd help us if you could	Byddet ti'n ein helpu ni set ti'n gallu.
14	You'd tell me if you knew, wouldn't you?	Byddet ti'n dweud wrtha i set ti'n gwbod, yn fyddet?
15	You'd tell me if you could help, wouldn't you?	Byddet ti'n dweud wrtha i sen i'n gallu helpu, yn fyddet?
16	You'd tell me if she was too busy	Byddet ti'n dweud wrtha i se hi'n rhy brysur.
17	You'd tell me if you knew what was happening	Byddet ti'n dweud wrtha i set ti'n gwbod be oedd yn digwydd.
18	(That is what) you would like to do	(Dyna beth) byddet ti'n hoffi gneud
19	What would you say if I asked you to go out at the weekend?	Be' fyddet ti'n dweud sen i'n gofyn i ti fynd mas ar y penwythnos?
20	What would you do if I asked you to help?	Be' fyddet ti'n gneud sen i'n gofyn i ti helpu?
21	What would you say if I asked you to help me with the arrangements on Tuesday? -	Be' fyddet ti'n dweud sen i'n gofyn i ti 'n helpu fi gyda'r trefniadau ddydd Mawrth?
22	Would you like to know what we were talking about?	Hoffet ti wbod beth o'n ni'n siarad amdani?
23	He'd better remember what he's going to say	Well iddo fe gofio beth ma fe'n mynd i ddweud
24	He'd like to read this book	Byddai fe'n hoffi darllen y llyfr 'ma
25	He'd like to know how long I've been learning Welsh	Byddai fe'n hoffi gwybod pa mor hir dw i 'di bod yn dysgu Cymraeg
26	He'd like to learn Welsh for about a week	Byddai fe'n hoffi dysgu Cymraeg am bitu wythnos
27	She'd better start to learn Welsh	Well iddi (hi) ddechrau dysgu Cymraeg
28	We wouldn't want to change our children	Fyddden ni ddim yn moyn newid ein plant ni.
29	We wouldn't want them any different	Fyddden ni ddim yn moyn nhw yn wahanol o gwbl.
30	We'd like to tell them something else	Hoffen ni ddweud rhywbeth arall wrthyn nhw
31	We'd like to ask you for help	Hoffen ni ofyn i chi am help.
32	Would you be willing to help on Wednesday?	Fydddech chi'n fodlon helpu ddydd Mercher?
33	Would you be willing to give him a little more time?	Fydddech chi'n fodlon rhoi ychydig mwy o amser iddo fe?
34	I should do something different at the weekend -	Dylen i neud rhywbeth gwahanol ar y penwythnos (dylwn)
35	Sometimes I shouldn't ask	Weithie ddylen i ddim gofyn (dylwn)
36	You should feel ready to start now	Dylet ti deimlo'n barod i ddechrau nawr.
37	(I think that) you should feel proud of yourself for doing so well	Dwi'n meddwl y dylet ti deimlo'n falch ohonot ti dy hunan am neud mor dda.

#	English	Cymraeg
38	We should find a better way to do it	Dylen ni ffeindio ffordd well i neud e.
39	We should go out sometime	Dylen ni fynd mas rhywbryd.
40	(Do you think) they should ask for help?	(Wyt ti'n meddwl) y dylen nhw ofyn am help?
41	They should be more open with us these days	Dylen nhw fod yn fwy agored gyda ni y dyddiau 'ma.
42	You could say what you've done	Gallet ti ddweud be ti 'di gwneud
43	Could you tell me what you want to do?	Allet ti ddweud wrtha i be ti'n moyn gneud?
44	Could you say it again a little more slowly?	Allet ti ddweud e eto bach yn arafach?
45	Could you say it again slowly?	Allet ti ddweud e eto yn araf
46	I said that I'm always happy to help you	Dweddes i bo fi wastad yn hapus i helpu ti.
47	I wanted her to help you as soon as possible	O'n i'n moyn iddi hi dy helpu di cyn gynted â phosib
48	I wanted her to help you with the coffee	O'n i'n moyn iddi hi dy helpu di gyda'r coffi.
49	I thought that you wanted to give it to him tomorrow	O'n i'n meddwl bo ti'n moyn rhoi e iddo fe fory.
50	I thought you said that you wanted a cup of tea	O'n i'n meddwl i ti ddweud bo ti'n moyn dishgled o de.
51	I thought you said that you'd better not take too much of a risk	O'n i'n meddwl i ti ddweud bod well i ti beidio cymryd gormod o risg
52	I saw a few friends on Friday night	Weles i ychydig o ffrindiau nos Wener
53	I saw a few friends on Saturday	Weles i ychydig o ffrindiau ddydd Sadwrn
54	I watched the football for a while	Wylies i'r bêl-droed am dipyn
55	I enjoyed watching that film very much	Joies i wylïo'r ffilm 'na yn fawr iawn
56	I heard that you didn't have time to watch the football on Saturday	Clywes i na chest ti amser i wylïo'r bêldroed ddydd Sadwrn
57	I heard that you've been learning for about a month	Clywes i bo ti 'di bod yn dysgu am bitî mis
58	I heard you were going to go out as often as possible	Clywes i bo ti'n mynd i fynd mas mor aml â phosib
59	I went out last night with a young man who likes that film	Es i mas neithiwr gyda dyn ifanc sy'n hoffi'r ffilm 'na
60	I met someone in the pub who wants to watch that film	Wnes i gwrdd â rhywun yn y dafarn sydd yn moyn gwylïo'r ffilm 'na
61	I met someone in the pub last night who said that he knows the young woman	Wnes i gwrdd â rhywun yn y dafarn neithiwr ddwedodd fod e'n nabod y fenyw ifanc
62	I met someone last night who knows your sister well	Wnes i gwrdd â rhywun neithiwr sy'n nabod dy chwaer di yn dda
63	I met a young man last night who works with your sister	Wnes i gwrdd â dyn ifanc neithiwr sy'n gweithio gyda dy chwaer di
64	I didn't think that you wanted to go to school	Do'n i ddim yn meddwl bo ti'n moyn mynd i'r ysgol.
65	I'm sorry, but I didn't know that you speak Welsh	Mae'n ddrwg 'da fi ond do'n i ddim yn gwybod bo ti'n siarad Cymraeg
66	I'm sorry, but I didn't understand what you said	Mae'n ddrwg 'da fi ond wnes i ddim deall be ddwedest ti
67	I didn't hear what the old woman wanted	Chlywes i ddim beth oedd yr hen feyw yn moyn
68	I was trying to say that I have been learning Welsh for about a month now	O'n i'n trio dweud bo' fi wedi bod yn dysgu Cymraeg am bitî mis nawr
69	I was speaking with someone who told me something interesting today	O'n i'n siarad gyda rhywun ddwedodd rhywbeth diddorol wrtha'i heddiw
70	I was speaking with someone at the weekend who told me something	O'n i'n siarad gyda rhywun ar y penwythnos ddwedodd rhywbeth wrtha'i
71	I was going to drink too much on Friday night	O'n i'n mynd i yfed gormod nos Wener
72	I was going to say as much as possible	O'n i'n mynd i ddweud gymaint â phosib
73	Yes, I had a good time, thank you very much	Do, ges i amser da, diolch yn fawr iawn
74	I've still got to say something else	Mae dal rhaid i fi ddweud rhywbeth arall
75	I've got a friend who likes this book	Mae 'da fi frind sy'n hoffi'r llyfr 'ma
76	I've just started to learn Welsh because it's interesting	Dw i newydd ddechrau dysgu Cymraeg achos mae'n ddiddorol

#	English	Cymraeg
77	I've just started to learn to speak Welsh	Dw i newydd ddechrau dysgu siarad Cymraeg
78	I've just started to understand your children	Dw i newydd ddechrau deall eich plant chi
79	I've forgotten how to say something	Dw i wedi anghofio sut i ddweud rhywbeth
80	You said that you thought it was fairly good	Dwedest ti bo ti'n meddwl bod hi'n eitha da.
81	You said that it was complete rubbish	Dwedest ti bod hi'n rwtsh llwyr.
82	You said that you wanted to deal with the arrangements	Dwedest ti bo ti'n moyn delio gyda'r trefniadau.
83	You said that you wanted to find a better way	Dwedest ti bo ti'n moyn ffeindio ffordd well.
84	You said something interesting	Dwedest ti rywbeth diddorol
85	Yes, that's what you said yesterday	Ie, dyna be ddwedest ti ddoe.
86	You started to learn a month ago	Wnest ti ddechrau dysgu mis yn ôl
87	You didn't tell me what I wanted to know	Ddwedest ti ddim wrtha i beth o'n i'n moyn gwbod.
88	Did you say that you wanted milk with your coffee?	Ddwedoch chi bo chi'n moyn llaeth gyda'ch coffi?
89	Did you say that you wanted to get up early in the morning?	Ddwedest ti bo ti'n moyn codi'n gynnar yn y bore?
90	Did you say that you wanted to go out tomorrow?	Dwedest ti bo ti'n moyn mynd mas yfory?
91	Did you have time to explain what was going to happen?	Gest ti amser i esbonio be' oedd yn mynd i ddigwydd?
92	Did you have time to wait for them?	Gest ti amser i aros amdany'n nhw?
93	Did you have a good time with your sister at the weekend?	Gest ti amser da gyda dy chwaer di ar y penwythnos?
94	Did you watch the football on Saturday afternoon?	Nest ti wylïo'r bêl-droed bnawn dydd Sadwrn?
95	Did you read that book we were talking about?	Nest ti ddarllen y llyfr 'na o'n ni'n siarad amdano?
96	Did you read about what we're going to do?	Nest ti ddarllen am be' yn ni'n mynd i neud?
97	Did you enjoy that film about a young man who wanted to learn Welsh?	Joiest ti'r ffilm 'na am ddyn ifanc oedd yn moyn dysgu Cymraeg?
98	What did you think of that film?	Beth o't ti'n meddwl am y ffilm 'na?
99	When did you start speaking Welsh?	Pryd wnest ti ddechrau siarad Cymraeg?
100	He wanted you to tell me something interesting	Oedd e'n moyn i ti ddweud rhywbeth diddorol wrtha'i
101	He said that I've learnt a lot already	Dwedodd e bo fi 'di dysgu llawer yn barod
102	He said that he knows someone who wanted to speak with you	Dwedodd e fod e'n nabod rhywun oedd yn moyn siarad gyda ti
103	He told me that he wants to help you	Dwedodd e wrtha'i fod e'n moyn dy helpu di
104	The old man wanted to tell me something last night	Oedd yr hen ddyn yn moyn dweud rhywbeth wrtha'i neithiwr
105	Have you been learning Welsh again?	Wyt ti 'di bod yn dysgu Cymraeg eto?
106	How long have you been speaking Welsh?	Pa mor hir wyt ti 'di bod yn siarad Cymraeg?
107	He didn't tell me if you wanted anything	Ddwedodd e ddim wrtha i os o'ch chi'n moyn unrhywbeth.
108	He didn't tell me that it had finished	Ddwedodd e ddim wrtha i fod e 'di cwpla.
109	She wanted to help the old man	Oedd hi'n moyn helpu'r hen ddyn
110	She said that she was too busy to help me do it	Dwedodd hi bo hi'n rhy brysur i 'n helpu fi neud e.
111	She didn't want to wait for them on Thursday	Doedd hi ddim yn moyn aros amdany'n nhw ddydd Iau.
112	My sister met someone yesterday who knows your sister	Wnaeth fy chwaer i gwrdd â rhywun ddoe sy'n nabod dy chwaer di
201	My father wanted to watch a bit of television yesterday	Oedd 'y nhad i'n moyn gwylïo bach o deledu ddoe
206	Your mother told me that I shouldn't do the same thing	Dwedodd dy fam wrtha'i na ddylen i neud yr un peth
113	The young woman in the pub last night said that she wants to speak with you	Dwedodd y fenyw ifanc yn y dafarn neithiwr bod hi'n moyn siarad gyda ti
114	The other one told me that you were going to start	Dwedodd y llall wrtha i bo ti'n mynd i

#	English	Cymraeg
115	It was complete rubbish, to be honest	Oedd hi'n rwtsh llwyr, i fod yn onest.
116	It was nice to learn fairly quickly	Oedd hi'n braf dysgu yn eitha' clou
117	It was going to be ready today	Oedd hi'n mynd i fod yn barod heddi
118	The book was complete rubbish, they say	Oedd y llyfr yn rwtsh llwyr, medden nhw.
119	Everyone told me that he'd like to speak Welsh sometimes	Dwedodd pawb wrtha'i y byddai fe'n hoffi siarad Cymraeg weithie
120	We were talking about what was happening in the pub	O'n ni'n siarad am be' oedd yn digwydd yn y dafarn.
121	We all thought about it last night	O'n ni i gyd yn meddwl amdani neithiwr.
122	We wanted to know what was going to happen	O'n ni'n moyn gwbod be' oedd yn mynd i ddigwydd.
123	We wanted to know what they're trying to achieve	O'n ni'n moyn gwbod beth maen nhw'n trio cyflawni.
124	We didn't know what was happening	Do'n ni ddim yn gwbod be' oedd yn digwydd.
125	We didn't know what to ask them	Do'n i ddim yn gwbod beth i ofyn iddyn nhw
126	You wanted a cup of tea or coffee	O'ch chi'n moyn dishgled o de neu goffi.
127	They told us that they're trying to be more open	Dwedon nhw wrthon ni bo nhw'n trio bod yn fwy agored.
128	They didn't want to explain what was happening	Do'n nhw ddim yn moyn esbonio be' oedd yn digwydd.
129	I want to think before I answer your question	Dw i'n moyn meddwl cyn i fi ateb dy gwestiwn di.
130	I want to talk with you before you go	Dw i'n moyn siarad gyda chi cyn i chi fynd.
131	I want to know the best thing to do next week	Dw i'n moyn gwbod y peth gorau i'w neud wythnos nesa
132	I want to walk to work with you on Monday	Dw i'n moyn cerdded i'r gwaith gyda ti ddydd Llun.
133	I want to say that I think that you speak it very well	Dw i'n moyn dweud bo fi'n meddwl bo ti'n siarad hi'n dda iawn
134	I want to speak Welsh	Dw i'n moyn siarad Cymraeg
135	I want to help you understand what I'm going to say	Dw i'n moyn dy helpu di i ddeall be' dwi'n mynd i ddweud
136	I want to say something in Welsh	Dw i'n moyn dweud rhywbeth yn Gymraeg
137	I need to find out what you've done before I answer	Ma isie i fi ffeindio mas be ti di gneud cyn i fi ateb.
138	I still need to go there with you later	Ma dal isie i fi fynd yno gyda ti nes ymlaen
139	I still need to practise speaking	Mae dal eisiau i fi ymarfer siarad
140	I'm sorry, but I need to ask you again	Mae'n ddrwg 'da fi ond mae eisiau i fi ofyn i ti eto
141	I must practise more	Rhaid i fi ymarfer myw
142	I'm willing to bring what I can	Dw i'n fodlon dod â beth galla i.
143	I'm willing to wait for you	Dw i'n fodlon aros amdanat ti.
144	I'm always happy to speak Welsh	Dw i wastad yn hapus i siarad Cymraeg.
145	I'm happy to walk into town with you	Dw i'n hapus i gerdded i'r dre gyda ti.
146	I'm happy with what you said	Dw i'n hapus gyda be ddwedest ti
147	I'm happy with how much I've learnt	Dwi'n hapus gyda faint dwi 'di dysgu
148	I'm surprised at what you want to do tomorrow	Dw i'n synnu at be ti'n moyn gneud fory
149	I'm surprised at how much I've learnt already	Dw i'n synnu at faint dwi 'di dysgu'n barod
150	I enjoy a chance to eat too much	Dw i'n joi'o'r cyfle i fwyta gormod
151	I enjoy learning Welsh but I still have to practise speaking more	Dw i'n joi'o dysgu Cymraeg ond mae dal rhaid i fi ymarfer siarad mwy
152	I feel that I've done a lot in a short time	Dw i'n teimlo bo fi 'di gwneud llawer mewn amser byr

#	English	Cymraeg
153	I am trying to practise speaking Welsh	Dw i'n trio ymarfer siarad Cymraeg
154	I think I would like to help you understand that I still need to practice	Dw i'n meddwl y r hoffon i dy helpu ti/di i ddeall bod dal eisiau i fi ymarfer
155	I think that I need to speak more	Dw i'n meddwl bod isie i fi siarad mwy
156	Thank you very much, but I think I need to practice more	Diolch yn fawr ond dwi'n meddwl bod eisiau i fi ymarfer mwy
157	I remember when ours were young	Dw i'n cofio pan oedd ein rhai ni'n ifanc
158	I can remember how to say what I want to say	Galla' i gofio sut i ddeud beth dw i'n moyn dweud
159	Can I think about it before I answer?	Ga i feddwl amdani cyn i fi ateb?
160	Can I ask you what you thought about it?	Ga i ofyn i ti beth o't ti'n meddwl amdani?
161	So can I have my money back?	Felly ga i 'n arian i nôl?
162	I don't want to give her anything on Tuesday	Sa i'n moyn rhoi unrhywbeth iddi ddydd Mawrth.
163	I don't want to tell my mother what I'm going to do tomorrow	Dw i ddim yn moyn dweud wrth yn mam i be dwi'n mynd i neud yfory
164	I don't want to ask you anything else	Dwi ddim yn moyn gofyn unrhywbeth arall i ti
165	I don't want to stop now because I think it's interesting	Dw i ddim yn moyn stopo nawr achos dwi'n meddwl bo hi'n ddiddorol
166	I can't remember the question at the moment	Alla i ddim cofio'r cwestiwn ar hyn o bryd.
167	But I can't remember how to say what I want to say	Ond alla' i ddim cofio sut i ddweud beth dw i'n moyn dweud
168	I can't relax yet because I still need to improve	Alla'i ddim ymlacio eto achos ma dal isie i fi wella
169	And I'm not sure what I was trying to say	A dwi ddim yn siwr beth o'n i'n trio dweud
170	I'm going to relax for a while and read this book on Sunday afternoon	Dw i'n mynd i ymlacio am dipyn a darllen y llyfr 'ma bnawn dydd Sul
171	I'm going to remember what you said	Dwi'n mynd i gofio beth ddwedest ti
172	I am going to speak Welsh	Dw i'n mynd i siarad Cymraeg
173	I am going to try to speak welsh, but I can't remember how	Dw i'n mynd i drio siarad Cymraeg, ond alla' i ddim cofio sut
174	I am going to improve	Dw i'n mynd i wella
175	I'll see you in the pub tonight	Wela i di yn y dafarn heno
176	You walk into town at the weekend	Ti'n cerdded i'r dre ar y penwythnos
177	You know that I'm always ready to help, if you like	Ti'n gwbod bo fi wastad yn barod i helpu, os hoffi di.
178	You're doing what you need to do to speak Welsh well	Ti'n gwneud beth mae eisiau i ti wneud i siarad Cymraeg yn dda
179	You need to practice speaking more often, but you've done very well	Mae eisiau i ti ymarfer siarad yn amlach, ond ti wedi gwneud yn dda iawn
180	Do you want to walk to school on Friday morning?	Wyt ti'n moyn cerdded i'r ysgol fore dydd Gwener?
181	Do you want to finish this before you go?	Wyt ti'n moyn cwpla hyn cyn i ti fynd?
182	Do you want a cup of tea?	Wyt ti'n moyn dishgled o de?
183	How are you feeling now?	Sut wyt ti'n teimlo nawr?
184	Do you feel like doing something different sometime next week?	Wyt ti'n teimlo fel gneud
185	What do you feel like doing?	Beth wyt ti'n teimlo fel gneud?
186	How do you feel about your Welsh?	Sut wyt ti'n teimlo am dy Gymraeg?
187	Where do you come from? I come from Spain!	O ble wyt ti'n dod? Dw i'n dod o Sbaen!
188	What are you going to do on Sunday morning?	Be' ti'n mynd i neud fore dydd Sul?
189	Have you heard what we're going to do tonight?	Wyt ti 'di clywed be' yn ni'n mynd i neud heno?
190	Are you sure (that) that's the best thing to do?	Wyt ti'n siŵr taw dyna'r peth gorau i'w neud?
191	Can you tell me how to find out soon?	Allet ti ddweud wrtha i sut i ffeindio mas yn fuan?
192	Have you had a chance to read that book?	Wyt ti 'di cael cyfle i ddarllen y llyfr 'na?
193	Have you had enough to eat?	Wyt ti 'di cael digon i fwyta?

#	English	Cymraeg
194	Be careful when you walk to work	Bydd yn ofalus pan ti'n cerdded i'r gwaith.
195	I don't want to drink tea early in the morning	Sa i'n moyn yfed te'n gynnar yn y bore.
196	Don't try to give him a little more time	Paid trio rhoi ychydig mwy o amser iddo fe.
197	Don't try to do it on your own tonight	Paid trio gneud e ar dy ben dy hunan heno.
198	He wants you to tell me what to do	Ma fe'n moyn i ti ddweud wrtha'i beth i wneud
199	He's trying to start learning Welsh	Ma fe'n trio dechrau dysgu Cymraeg
200	That's enough for now	Dyna ddigon am nawr
201	He is going to remember how to say something in Welsh	Ma fe'n mynd i gofio sut i ddweud rhywbeth yn Gymraeg
202	Our son is grown up now	Mae ein mab ni wedi tyfu lan nawr.
203	The boy there is fifteen	Mae'r bachgen yna yn bymtheg.
204	One boy is trying to say something	Mae un bachgen yn trio dweud rhywbeth
205	(I know) a young man who's just started to learn Welsh	(Dw i'n nabod) dyn ifanc sydd newydd ddechrau dysgu Cymraeg
206	The old woman is going to help you	Mae'r hen fenyw yn mynd i dy helpu di
207	I know a young woman who's going to ask you something	Dwi'n nabod menyw ifanc sydd yn mynd i ofyn rhywbeth i ti
208	It's possible, she told me	Mae'n bosib, dwedodd hi wrtha'i
209	The oldest is ten	mae'r hynaf yn ddeg
211	That one is five	mae honno'n bump / mae hwnnw'n bump
212	That's children for you	Oes (gy)dach chi blant eich hunain?
213	How old is the youngest?	Pa mor hen yw'r ifancaf?
214	The time flies past, doesn't it?	Mae'r amser yn hedfan heibio, on'd ife?
215	The time flies past so quickly, doesn't it?	Mae'r amser yn hedfan heibio mor glou, on'd yw e?
216	It goes very quickly at the weekend, doesn't it?	Mae'n mynd yn glou iawn ar y penwythnos, on'd yw hi?
217	He doesn't want to ask anything else before I answer	So fe'n moyn gofyn unrhywbeth arall cyn i fi ateb.
218	Nobody wants to ask you what you've done	Does neb yn moyn gofyn i ti be ti 'di gwneud
219	We want them to spend more time at school	Yn ni'n moyn iddyn nhw hala mwy o amser yn yr ysgol.
220	We want them to make sure that we finish tonight	Yn ni'n moyn iddyn nhw neud yn siŵr bo ni'n cwpla heno.
221	We don't know what they wanted	So ni'n gwybod beth o'n nhw'n moyn.
222	We don't know what they wanted	So ni'n gwbod beth maen nhw'n moyn
223	We need to think about it	Ma isie i ni feddwl amdani.
224	We've got a son who works for the council	Mae 'da ni fab sy'n gweithio i'r Cyngor
225	We've got a son in his thirties who works as a teacher	Mae 'da ni fab yn ei dridegau sy'n gweithio fel athro.
226	We've got two girls and two boys	Mae gyda ni ddwy ferch a dau fachgen.
227	Yes, we've got a daughter in her twenties	Oes, ma 'da ni ferch yn ei hugeiniau.
228	No, we don't have	Na, 'sdim 'da ni (nagoes, does dim gyda ni)
229	Yes, we've got	Oes, ma 'da ni (oes, ma gyda ni)
230	Yes, we've got enough to eat, thanks	Oes, ma 'da ni ddigon i fwyta, diolch.
231	We don't see our children very often these days	So ni'n gweld ein plant ni yn aml iawn y dyddiau 'ma.
232	We don't know how to find a better way	So ni'n gwbod sut i ffeindio ffordd well
233	Shall we go home to give her enough time to do it?	Awn ni gytre i roi digon o amser iddi hi neud e?
234	Shall we go after we finish this?	Awn ni ar ôl i ni gwpla hwn?

#	English	Cymraeg
235	Shall we get something different to eat tonight?	Beth am i ni gael rhywbeth gwahanol i fwyta heno?
236	You don't look old enough	So chi'n disgwyl yn ddigon hen.
237	Have you heard what I think about the latest idea?	Ŷch chi 'di clywed be' dw i'n meddwl am y syniad diweddara?
238	May I get you something	Ga i nôl rhywbeth i chi?
239	Do you want milk with your tea?	Ŷch chi'n moyn llaeth gyda'ch te?
240	Do you want to tell me something?	Ŷch chi'n moyn dweud rhywbeth wrtha i?
241	Can I get you something else to drink?	Ga i nôl rhywbeth arall i chi yfed?
242	So where are you from?	Felly o ble ŷch chi'n dod?
243	Have you got children yourselves?	Oes (gy)dach chi blant eich hunain?
244	They're trying to improve, but they should ask for more help	Maen nhw'n trio gwella, ond dylen nhw ofyn am fwy o help.
245	They grow up so quickly these days, don't they?	Maen nhw'n tyfu lan mor glou y dyddiau 'ma, on'd ŷn nhw?
246	They're trying to ask us something	Maen nhw'n trio gofyn rhywbeth i ni.
247	They still want to be more open about it	Maen nhw dal yn moyn bod yn fwy agored amdani.
248	They want to know what was going to change	Maen nhw'n moyn gwbod beth oedd yn mynd i newid.
249	They want to spend less time meeting as a group	Maen nhw'n moyn hala llai o amser yn cwrdd fel grŵp.
250	They want to speak Welsh with us	Maen nhw'n moyn siarad Cymraeg gyda ni
251	They want us to make sure that we finish on time	Maen nhw'n moyn i ni neud yn siŵr bo ni'n cwpla mewn pryd.
252	They want to spend more time working at home	Maen nhw'n moyn hala mwy o amser yn gweithio gytre
253	They think that we need to discuss everything more often	Maen nhw'n meddwl bod isie i ni drafod popeth yn fwy aml
254	They think that we need to discuss what was happening	Maen nhw'n meddwl bod isie i ni drafod beth oedd yn digwydd.
255	They say that they want to make sure that we finish everything	Maen nhw'n dweud bo' nhw'n moyn gneud yn siŵr bo' ni'n cwpla popeth.
256	They look lively, but that's children for you	Maen nhw'n disgwyl yn fywiog ond dyna blant i chi.
257	They look like a real handful	Maen nhw'n disgwyl fel llond llaw go iawn.
258	Our children are grown up now	Mae ein plant ni wedi tyfu lan nawr.
259	Some people think the same thing	Mae rhai pobl yn meddwl yr un peth
260	(I remember) when they had just started school as though it were yesterday	(Dw i'n cofio) pan o'n nhw newydd ddechrau yn yr ysgol fel se hi'n ddoe.
261	(I remember) when they were young	(Dwi'n cofio) pan o'n nhw'n ifanc.
262	They want to go now, don't they?	Maen nhw'n moyn mynd nawr, on'd ŷn nhw?
263	What do they want to achieve?	Beth ŷn nhw'n moyn cyflawni?
264	What do they want to do now?	Beth ŷn nhw'n moyn gneud nawr?
265	Do they want to spend more time meeting as a group?	Ŷn nhw'n moyn hala mwy o amser yn cwrdd fel grŵp?
266	Are those your children?	Ife'ch plant chi yw rheina?
267	How old are they?	Pa mor hen ŷn nhw?
268	Are they ready?	Ŷn nhw'n barod?